



LITERATURE
ACROSS
FRONTIERS



Sandorf



Co-funded by the
Creative Europe Programme
of the European Union

Galwad Agored ar gyfer Preswyladau i Awduron a Chyfieithwyr

ULYSSES' SHELTER

Agor yr alwad: 9 Hydref 2019

Dyddiad Cau: 9 Tachwedd 2019

Beth yw'r Cyfle?

Mae ULYSSES' SHELTER: ADEILADU RHWYDWAITH AWDURON PRESWYL yn ail gam o brosiect a gyd-ariennir gan raglen Ewrop Greadigol yr Undeb Ewropeaidd gyda'r nod o greu rhwydwaith o breswyladau cyfnewid llenyddol yn Ewrop wedi eu cynllunio'n bennaf ar gyfer awduron (rhyddiaith/barddoniaeth) a chyfieithwyr llenyddol ifanc. Arweinir y prosiect gan **Sandorf** (cyhoeddwr ac asiantaeth lenyddol yng Nghroatia) ac mae'r prosiect yn cael ei weithredu yng Nghymru gan **Lenyddiaeth ar draws Ffiniau** a **Chynewidfa Lên Cymru**. Y partneriaid eraill yw **Krokodil** (Belgrad, Serbia), **Thraka** (Gwlad Groeg) a **Chymdeithas Awduron Slofenia**.

Cynhelir rhaglen y preswyladau ar ynys Mljet (Croatia), yn Ljubljana (Slofenia), yn Larissa (Gwlad Groeg), yn Belgrad (Serbia) ac mewn sawl lleoliad yng Nghymru. Bydd rhaglen y preswyladau yn canolbwyntio ar symudedd rhyng-genedlaethol ac ar ddatblygu cynulleidfaoedd ac fe fydd yn rhoi cyfleoedd i awduron a chyfieithwyr ifanc i gael gweithio, perfformio a chyflwyno eu hunain mewn dau gyd-destun cymdeithasol a diwylliannol gwahanol. Bydd y preswyladau yn dod a chyfleoedd a phosibiliadau newydd i eraill fel rhan o'r prosiect, yn awduron, chyfieithwyr, golygyddion, cyhoeddwr a/neu gynrychiolwyr o gyrff llenyddol yn Nghymru, Croatia, Slofenia, Serbia a Gwlad Groeg. Yn ogystal, bydd rhaglen sylweddol o weithgareddau llenyddol wedi eu hanelu at grwpiau targed (lleol) er mwyn cyfoethogi'r preswyladau.

Thema'r flwyddyn gyntaf o Ulysses Shelter 2, a fydd yn berthnasol i bob un a ddewisir ar gyfer preswylad yn yr alwad hon, yw **Llyfrgell** – fel gofod ffisegol ac fel basdata rhithiol o wybodaeth bwysig a pherthnasol ar gyfer unrhyw gyd-destun artistig, diwylliannol neu gymdeithasol. Yn ogystal â datblygu Llyfrgell Ryngwladol Barddoniaeth sydd yn gysylltiedig â phreswylad Mljet fel rhan o brosiect Ulysses Shelter, gwahoddir y rhai a fydd ar breswylad i fyfyrion ar bwysigrwydd llyfrgell fel symbol pwysig ac fel cofeb i heddwch a chyd-ddealltwriaeth rhwng pobl drwy gyfrannu cerdd, ysgrif, blogiad neu gyfieithiad ar y thema hon.

Ble mae'r preswyladau?

Mljet (Croatia): rhwng Ionawr 2020 a chanol Mai 2020; rhwng Tachwedd 2020 a Rhagfyr 2020

Ljubljana (Slofenia): rhwng Ionawr 2020 hyd at ganol Mai 2020

Larissa (Gwlad Groeg): rhwng Ionawr 2020 a Rhagfyr 2020

Belgrad (Serbia): rhwng Ionawr 2020 a Rhagfyr 2020

Cymru: rhwng canol Ebrill 2020 a Rhagfyr 2020

Pa mor hir yw'r preswyladau?

Mljet (Croatia): 2 neu 3 wythnos

Ljubljana (Slofenia): 2 neu 3 wythnos

Larissa (Gwlad Groeg): 2 neu 3 wythnos

Belgrad (Serbia): 2 wythnos

Cymru : 2 wythnos

Pwy gaiff ymgeisio?

- Rhaid i ymgeiswyr fod yn awduron (rhyddiaith a / neu farddoniaeth) neu'n gyfieithwyr llenyddol
- Rhaid i ymgeiswyr fod wedi cyhoeddi o leiaf dau lyfr o'u gwaith eu hunain, neu un llyfr a phortfolio cyfatebol o gyhoeddiadau mewn cyfnodolion print neu arlein, sydd â phroses olygyddol
- Rhaid i ymgeiswyr fod o dan 40 oed ar y dyddiad cau
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn Gymry neu fyw yng Nghymru
- Rhaid i ymgeiswyr fedru teithio i ddwy o'r pum gwlad sydd yn rhan o'r prosiect
- Rhaid i ymgeiswyr fedru mynd ar ddau breswylad mewn un flwyddyn
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn agored i gydweithio gydag artistiaid a phartneriaid
- Rhaid i ymgeiswyr ysgrifennu darn ar gyfer gwefan ULYSSES SHELTER Tovar.hr yn ystod y preswylad
- Rhaid i ymgeiswyr fod â diddordeb mewn creu perthynas gyda'r gynulleidfa leol

Beth a gynigir?

- Dau breswylad gwahanol mewn dwy wlad wahanol yn ystod yr un flwyddyn
- Sesiwn gyflwyno, sgwrs gydag awduron neu weithdai / digwyddiadau eraill
- Cefnogaeth i'r sawl sydd ar breswylad
- Cyhoeddusrwydd i'r rhai sydd ar breswylad ar gyfryngau cymdeithasol ULYSSES' SHELTER, cylchlythyrau, a gwefan Tovar.hr ac ar wefannau, cylchlythyrau a chyfryngau cymdeithasol y partneriaid
- Cyfleoedd rhwydweithio a chynyddu gwelededd rhyngwladol
- Llety a chostau teithio (dosbarth economi)
- Ffi (€400 i gynnwys holl drethi) a Chynhaliaeth (€300 gros yn Slofenia, Serbia, Croatia a Gwlad Groeg)
- Cyfle rhagorol ar gyfer awdur neu gyfieithydd ifanc ac uchelgeisiol i fanteisio ar brofiad unigryw a all gryfhau eu gyrfa, creu gwaith newydd, ymchwilio, ac arbrofi i fynd â'u gwaith i gyfeiriad newydd.

NODYN: Rhaid i'r ymgeiswyr gyrraedd pob maen prawf er mwyn cael eu hystyried ar gyfer y preswyladau.

Beth sydd yn rhaid ei gyflwyno?

Un ddogfen PDF i gynnwys y canlynol gyda'i gilydd:

1. CV (dim mwy nac 1 ochr)
2. Llythyr i esbonio pam fod yr ymgeisydd yn awyddus i fynd i leoliadau penodol fel rhan o'r preswyladau a chynllun sydd yn egluro beth yr hoffent wneud yno e.e. gweithio ar nofel newydd, casgliad o farddoniaeth neu straeon byrion, cyfieithiad ac ati (dim mwy nac 1 ochr)
3. Llyfryddiaeth
4. Pa leoliadau fyddai orau gennych
5. Llythyr i gefnogi eich cais (dewisol)

Dylid danfon ceisiadau at info@lit-across-frontiers.org a post@waleslitexchange.org erbyn 9 Tachwedd 2019.

Os ydych am ragor o wybodaeth am yr alwad cysylltwch â info@lit-across-frontiers.org a post@waleslitexchange.org gyda'r llinell testun 'Ulysses Shelter'.

Pryd cyhoeddir y canlyniadau?

Bydd y Panel Dethol, a fydd yn cynnwys tri aelod sydd ag arbenigedd yn y maes, yn cynnig **tri ymgeisydd o Gymru** i gymryd rhan yn y prosiect preswyladau yn ystod 2020.

Cyhoeddir y canlyniadau ar wefannau a chyfryngau cymdeithasol y partneriaid ddechrau **Rhagfyr 2019** ac fe gaiff ymgeiswyr llwyddiannus ebost uniongyrchol i'w hysbysu.

Mwy ar waith y partneriaid

- Mae **CYMDEITHAS AWDURON SLOFENIA** (DSP) yn trefnu amrywiaeth o brosiectau rhyngwladol, gan gynnwys preswyladau llenyddol a'r Wyl a Gwobr Lenyddol Rhyngwladol Vilenica (<http://drustvo-dsp.si/en/home/>)

- Mae'r sefydliad diwylliannol o Belgrade, **KROKODIL**, yn ymroddedig i gynhyrchu prosiectau llenyddol, diwylliannol a chymdeithasol-wleidyddol gyda'r nod o ddatblygu cynulleidfaoedd llenyddol, hyrwyddo diwylliant y deialog, ailadeiladu cysylltiadau toredig yn y Balcanau, ac i ddyfnhau cyd-ddealltwriaeth a derbyn gwahaniaeth yn Ewrop. (<http://www.krokodil.rs/eng/krokodils-writer-in-residence/>)

- Mae **SANDORF** yn gyhoeddwr annibynnol arobryn a'r asiantaeth lenyddol broffesiynol gyntaf yn y rhanbarth i gynrychioli awduron yn rhyngwladol. Maen nhw'n gweithredu prosiectau rhyngwladol (Ulysses' Shelter, Gŵyl LitLink) (<http://tovar.hr/>)

- Corff anllywodraethol llenyddol a diwylliannol yw **THRAKA** sy'n cael ei redeg gan awduron ifanc sy'n ymroddedig i gyhoeddi egin awduron a threfnu gweithgareddau cynhwysiad diwylliannol a chymdeithasol yn Larissa, Thessaly.

GDPR

Wrth gyflwyno'r cais i'r alwad hon rydych yn rhoi eich caniatâd i'r wybodaeth a gynhwysir ynddo gael ei gadw ar gyfrifiadur neu mewn systemau ffeilio priodol a'i rhannu ag eraill yn unol â GDPR 2018.

Preifatrwydd

Byddwn yn prosesu ac yn cadw data personol yn unol â deddfwriaeth berthnasol bob amser. Defnyddir y wybodaeth a gyflwynir at ddibenion y broses ddethol yn unig. Cyhoeddir enwau a bywgraffiadau byrion o'r ymgeiswyr llwyddiannus.